DELTA
I CHI




# CAREIUM ABBY
# CANLLAW SEFYDLU HAWDD

Mae'r canllaw hwn ar gyfer cwsmeriaid ac aelodau o'r teulu. Dilynwch y camau syml isod i osod eich Careium Abby.

## BETH SYDD YN Y BOCS

- Dyfais larwm symudol Abby
- Crud gwefru
- Cebl pŵer a phlwg
- Cortyn
- Cerdyn gwybodaeth cyflym




**Os oes unrhyw beth ar goll, cysylltwch â ni.**

## CYN I CHI DDECHRAU

- ✔ Mae Abby yn **larwm symudol** sy'n gweithio **y tu mewn a'r tu allan i'r cartref**
- ✔ Dewiswch le i blygio'r **crud gwefru** (fel arfer yn y prif le byw)
- ✔ Dylai'r crud fod **ger soced pŵer**
- ✔ Mae'n defnyddio'r **rhwydwaith symudol** – nid oes angen llinell ffôn na rhyngrwyd



# CAM 1: PLYGIO I’R CRUD GWEFRU

- Plygiwch y cebl pŵer i’r crud gwefru
- Plygiwch y pen arall i mewn i’r soced wal
- Trowch y pŵer ymlaen



Mae’r crud bellach yn barod i’w ddefnyddio

# CAM 2: GOSOD Y DDYFAIS YN Y CRUD

- Gosodwch y ddyfais yn y crud gwefru
- Bydd yn troi ymlaen yn awtomatig




Bydd golau yn ymddangos i gadarnhau ei fod yn gwefru

# CAM 3: COFIO GWEFRU’R LARWM CYN EI DDEFNYDDIO AM Y TRO CYNTAF

- Gadewch y ddyfais yn y crud i wefru’n llawn
- Gall hyn gymryd hyd at **5 awr** y tro cyntaf



Mae golau gwyrdd solet yn golygu ei fod wedi’i wefru’n llawn

# CAM 4: PROFI EICH LARWM

- Tynnwch y ddyfais allan o’r crud
- Pwyswch a daliwch y **botwm cymorth** am **3 eiliad** (neu pwyswch 3 gwaith yn gyflym)
- Aros i’r gweithredwr siarad â chi
- Dywedwch wrthyn nhw mai **galwad prawf** ydyw




Mae hyn yn cadarnhau fod y larwm yn gweithio ac yn barod i’w ddefnyddio


LLESIANT DELTA WELLBEING

0300 333 2222

llesiantdelta.org.uk

Cwmni sy'n eiddo i

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council